

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
A GYNHALIWD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF AR DYDD IAU,
6 MEDI 2018**

AELODAU

Y Cynghorydd M C King OBE, Cadeirydd
Y Cynghorydd Rondo Roberts, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Bryan Apsley	Y Cynghorydd	* John McCusker
"	William Baldwin	"	Barrie Warburton
"	Mike Davies	"	Derek Wright
"	Michael Dixon	"	Beverley Parry-Jones
	T Alan Edwards		Paul Rogers
	Carrie Harper		

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Robert Walsh a Dana Davies

33 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar ran y Cynghorydd John McCusker.

34 CADARNHAU COFNODION

CYTUNWYD – bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir.

35 DIWEDDARIAD AR DDATBLYGU AELODAU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (HCCS/52/18) oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y Strategaeth Ddatblygu Aelodau a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf, gan ddefnyddio adborth o'r arolwg Aelodau.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Datblygu'r Gweithle, ac ymatebodd i gwestiynau'r Aelodau yn unol â hynny.

Wrth drafod, codwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Dangosodd ymatebion yr arolwg Aelodau awydd i ail-geisio am statws Siarter Cymru CLILC.
Nodwyd bod hon yn broses ymgeisio syml.
- Mae CBSW eisoes wedi bodloni mwyafrif y meini prawf gofynnol ar gyfer ennill statws Siarter.
- Pwysleisiodd nifer o Aelodau'r angen i sicrhau cefnogaeth lawn y 52 Aelod i'r cais am statws Siarter, ac y dylai Arweinwyr Grwpiau roi pwysau priodol ar eu grwpiau i ymrwymo'n unol â hynny.
Dywedodd Arweinydd Datblygu'r Gweithlu, tra bod rhaid *rhoi cyfle* i bob Aelod

gwblhau Adolygiad Datblygu Perfformiad (PDR), mae'n *ofynnol* i Aelodau Arweiniol gwblhau PDR er mwyn cyrraedd statws Siarter.

CYTUNWYD -

(i) Y byddai'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol i'r Cyngor:

- **mabwysiadu'r Strategaeth Datblygu Aelodau ddiwygiedig.**
- **mabwysiadu CANLLAWIAU CLILC I AWDURDODAU SY'N BWRIADU GWEITHREDU ADOLYGIADAU DATBLYGU PERFFORMIAD AR GYFER AELODAU fel polisi'r Cyngor ar gyfer PDR Aelodau.**
- **cyflwyno cais am statws Siarter Cymru CLILC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau**

(ii) Y byddai'r Pwyllgor yn monitro cynnydd mewn perthynas â datblygiad y cais Siarter.

36

GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (HCCS/52/18) oedd yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried ymarferoldeb a goblygiadau gweddarlledu holl gyfarfodydd y Cyngor.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ac ymatebodd i gwestiynau'r Aelodau yn unol â hynny.

Bu i'r Pwyllgor ganmol gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen, oedd wedi ymchwilio mewn mwy o fanylder i ymarferoldeb a goblygiadau ehangu'r gweddarlledu i gyfarfodydd y Cyngor

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd y materion canlynol, yn benodol:

- Byddai ehangu'r gwasanaeth gweddarlledu yn cryfhau ymgysylltiad y cyhoedd ac yn dangos bod y Cyngor yn agored ac yn dryloyw.
- Mynegodd rhai Aelodau bryder am y ffioedd a godir ar CBSW am wneud cais i gael gafael ar ddeunydd ffilm y mae'n berchen arno.
- Byddai unrhyw ddeunydd ffilm presennol sydd wedi'i archifo yn cael ei ddychwelyd i CBSW, boed y contract yn cael ei adnewyddu ai peidio.
- Ni fyddai'r opsiwn o ddarparu trawsgrifiad o ansawdd dda yn gost effeithiol ar hyn o bryd.
Galli'r opsiynau mewn perthynas â hyn ehangu yn y dyfodol gyda'r gwelliannau parhaus mewn technoleg.
- Codwyd rhywfaint o bryder nad oedd Siambr y Cyngor yn addas i natur lai ffurfiol y Pwyllgorau Craffu a bod Ystafell Gyfarfod 1 yn well lleoliad ar gyfer gweddarlledu'r cyfarfodydd llai hyn.
- Yr angen i brofi'r farchnad yn y 12 mis nesaf o ran yr hyn y mae CBSW eisiau

- ei gyflawni a sut y gallai gyrraedd ei nod.
- Awgrymwyd y dylid ystyried lleoliadau allanol eraill ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, h.y. Tŷ Pawb a Chanolfannau Adnoddau. Pwysleisiodd y swyddogion nad oedd y gofynion TG ar gael yn Tŷ Pawb.
 - Yr angen i fuddsoddi mewn adnewyddu Siambr y Cyngor i gefnogi defnydd hirdymor gweddarlledu.
 - Mae mwyafrif llethol yr Awdurdodau Lleol cyfagos yn defnyddio Public-i i weddarlledu, felly ni lwyddwyd i lunio unrhyw gasgliad synhwyrol o ymarfer cymharu costau.

PENDERFYNWYD -

- (i) Y byddai'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo prydlesu system weddarlledu ar gyfer Ystafell Gyfarfod 1, gyda golwg ar weddarlledu pwyllgorau craffu lle bo'n bosib o'r ystafell honno, yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael.**
- (ii) Y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y canlynol:**
 - (a) Adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer archifo recordiadau er mwyn ystyried dulliau amgen i sicrhau bod recordiadau ar gael am 6 mis.**
 - (b) Adolygu Protocol Gweddarlledu'r Cyngor, gan roi ystyriaeth i Strategaeth TGCh a Digidol y Cyngor ar gyfer 2017-2020.**

Y Cynghorydd M C King OBE
Cadeirydd